Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# {My}dentist, Hendy-gwyn
# Dyddiad y gweithgarwch: 11 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mehefin 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-509-6

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o bractis {My}dentist, Hendy-gwyn fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae practis {My}dentist, Hendy-gwyn yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o Integrated Dental Holdings (Grŵp IDH), o'r enw '{My}dentist', ac mae ganddo rwydwaith o bractisau deintyddol ledled y DU. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr cofrestredig a swyddog rheoleiddio practis {My}dentist ar 11 Mai 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth.[1] Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

[1] Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- asesiad risg COVID-19 y practis ar gyfer ailddechrau gwasanaethau deintyddol
- y cynllun gweithredu asesiadau risg tân diweddaraf
- y cynllun gweithredu asesiad risg iechyd a diogelwch diweddaraf

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal yr asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Gwelsom fod y practis wedi cyflawni asesiad risg manwl ar gyfer COVID-19, a oedd yn cynnwys asesiadau amgylcheddol, taith y claf, ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion yn ymweld â'r practis. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi llofnodi'r asesiad risg i gadarnhau eu bod wedi'i ddarllen a'i ddeall. Nodwyd gennym hefyd fod yr asesiad risg yn cynnwys dyddiad adolygu ac roedd system reoli fersiwn ar waith.

Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion yn y clinig, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y drws ffrynt yn cael ei gloi bob amser er mwyn atal aelodau o'r cyhoedd rhag mynd i mewn i'r safle ar eu pen eu hunain a heb apwyntiad. Dywedwyd wrthym fod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn y practis.

Byddai unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld deintydd yn cael eu gwahodd i'r practis ac yn cael apwyntiad ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym fod y staff a oedd yn derbyn cleifion i'r safle yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, a bod pob claf yr oedd angen triniaeth arno yn cael ei sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod system ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Canmolodd y rheolwr cofrestredig staff y practis am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod tîm corfforaethol Grŵp IDH wedi bod yn cefnogi'r practis yn llawn.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisi COVID-19
- Yr archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[2] diweddaraf a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- amserlenni glanhau'r deintyddfeydd
- cofnodion o wiriadau dyddiol o'r awtoclafau
- cofnodion o wiriadau dyddiol o'r bath uwchsain a diheintydd y peiriant golchi

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth glir o'r Weithdrefn Safonol[3] ddiweddaraf ar gyfer rheoli cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19. Bwriedir i bob lleoliad gofal deintyddol yng Nghymru ddefnyddio'r canllawiau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi cael diweddariadau rheolaidd ynglŷn â COVID-19 drwy grŵp WhatsApp dynodedig a thrwy e-bost. [4] Caiff unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau newydd eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm ffurfiol, a chânt eu cofnodi. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb, gan fod digonedd o le ar gael yn y practis i gadw pellter cymdeithasol. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

[2] Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

[3] https://llyw.cymru/rheoli-gofal-deintyddol-cleifion-nad-ydynt-wedu-heintio-covid-19

[4] Ap negeseua gwib aml-lwyfan yw WhatsApp, sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Windows Phone a Nokia i gyfnewid negeseuon testun, delweddau, fideo a sain am ddim. Yn ogystal ag anfon negeseuon sylfaenol, mae WhatsApp yn darparu opsiynau i sgwrsio mewn grŵp a rhannu lleoliadau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant neu ganllawiau mewnol amrywiol ar bynciau megis adnabod symptomau COVID-19, rheoli cleifion â symptomau COVID-19, defnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a gwaredu cyfarpar a ddefnyddiwyd yn ddiogel, ac argyfyngau meddygol yn ystod pandemig COVID-19.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig hefyd gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n defnyddio masgiau FFP3[5] wedi cael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio ar eu hwynebau'n iawn ac y bydd yn diogelu'r staff yn briodol.

Dywedwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro bob wythnos gan aelod o'r tîm nyrsio deintyddol.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.[6] Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer dda am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu dilynol ar waith ac yn cael ei fonitro.

Gwelsom dystiolaeth bod mwy o lanhau yn digwydd yn y deintyddfeydd a bod hyn yn cael ei gynnal.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r cyfarpar sterileiddio a diheintio'r peiriant golchi. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclaf[7] a'r bath uwchsain[8] yn dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod lloriau pob un o'r deintyddfeydd yn cael eu glanhau ar ddiwedd sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn. At hynny, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod lloriau'r deintyddfeydd yn cael eu glanhau ar ôl pob triniaeth/claf (os bydd amser yn caniatáu hynny), a gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer dda. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan bob deintyddfa ei mop a'i bwced dynodedig ei hun. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad yw pennau'r mopiau yn rhai untro. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau, dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y defnyddir pennau mop untro fel y nodir

[5] Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bach yn yr awyr a all gynnwys feirysau.
[6] Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu i sicrhau Cymru iachach. Mae'n Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn GIG Cymru ac yn eistedd ochr yn ochr ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd.
[7] Eitemau o gyfarpar a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offerynnau a deunyddiau a ddefnyddir yn ystod triniaethau proffesiynol yw awtoclafau.
[8] Mae glanhawr uwchsain yn cael gwared ar fiolwyth gan ddefnyddio tonnau sain a gynhyrchir gan ynni trydanol. Wrth i'r tonnau sain symud drwy'r hydoddiant glanhau hylif, maent yn creu'r ffurfiant a hwrdd o filiynau o swigod bach.

yn y Weithdrefn Safonol ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19.

Roedd y ffurflen hunanasesu, wedi'i chwblhau gan y rheolwr cofrestredig cyn y gwiriad ansawdd, yn cadarnhau bod asesiad risg penodol i'r practis ar waith, ac nad oedd angen cynnal unrhyw asesiadau ar gyfer staff agored i niwed na staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn y practis. Yn ystod y gwiriad ansawdd, gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig a oedd yr holl staff wedi cael asesiad risg COVID-19 manwl[9] er mwyn asesu'r risgiau personol o ganlyniad i barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl staff yn y practis wedi cael asesiad. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi cael ei ddogfennu. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig sicrwydd i ni y byddai trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod yr asesiad risg COVID-19 yn cael ei ailadrodd gyda phob aelod o'r staff. Ar ôl y gwiriad ansawdd, cawsom gopïau o'r asesiadau risg i ddangos bod y rhain wedi cael eu cwblhau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Ystyriwyd a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Datganiad o Ddiben
- Taflen Wybodaeth i Gleifion
- Arolygiad o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnodion
- Polisïau/gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Polisi COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rheolwr practis {My}dentist, Lomead, yw'r rheolwr cofrestredig.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Fodd bynnag, gwelsom fod y daflen

[9] Datblygwyd yr Adnodd Asesu Risg er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19.

wybodaeth i gleifion yn cynnwys manylion staff anghywir. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi trefnu i'r daflen wybodaeth i gleifion gael ei diweddaru ar unwaith a chawsom gopi ohoni.

Yn dilyn trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig, roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopïau o'r archwiliadau perthnasol a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar gan reolwr y practis, megis archwiliadau croes-heintio, nodiadau clinigol a phelydrau-X. Roedd yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau, ac roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gynnal lle y bo'n briodol.

Cawsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a gwelsom hefyd eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ar lafar bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiadau adolygu a / neu'n dilyn proses rheoli fersiynau ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw aelodau o'r staff yn absennol oherwydd salwch ar hyn o bryd ac nad oes unrhyw swyddi gwag yn y practis ar hyn o bryd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cyn y gwiriad ansawdd, cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm clinigol a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfio gyffredinol o 80%. Gwelsom fod pob nyrs ddeintyddol wedi adnewyddu ei hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, gwelsom fod angen adnewyddu rhywfaint o'r hyfforddiant ar gyfer y deintyddion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod rhai o'r deintyddion bellach wedi adnewyddu eu hyfforddiant, o gofio bod y practis wedi rhoi ystadegau hyfforddiant i ni cyn y gwiriad ansawdd. Cawsom ystadegau hyfforddiant diwygiedig ar ôl y gwiriad ansawdd a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfio gyffredinol o 93%. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cynlluniau ar waith i'r deintyddion hynny nad ydynt wedi cwblhau'r holl hyfforddiant i wneud hynny yn ystod mis Mai 2021. Dywedwyd wrthym hefyd fod y rheolwr cofrestredig wedi rhoi trefniadau ar waith erbyn hyn i wneud yn siŵr bod data hyfforddiant gorfodol yn cael eu hadolygu bob mis yn ystod cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn adnewyddu ei hyfforddiant yn amserol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi diweddariadau i AGIC mewn perthynas â'r cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd y darparwr cofrestredig wedi gallu ymweld â'r practis yn y cnawd oherwydd cyfyngiadau cenedlaethol yn ystod pandemig COVID-19. O ganlyniad, nid oedd copi o adroddiad yr unigolyn cyfrifol ar gael. Dywedwyd wrthym fod trefniadau bellach ar waith i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis yn ystod Mai 2021, fel sy'n ofynnol gan ReoliadauDeintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi copi o'r adroddiad i AGIC i ddangos tystiolaeth o'r ffordd y caiff ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ei reoli a'i asesu er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni

gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd ac wedi pennu bod angen i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella'n systemig mewn rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: {My}dentist, Hendy-gwyn

Dyddiad y gweithgarwch: 11 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pennau mop untro yn cael eu defnyddio yn y practis. | Gweithdrefn Safonol ar gyfer rheoli cleifion deintyddol nad oes ganddynt COVID-19. | Darparwyd mopiau untro ar ôl cael cyfarwyddyd gan Arolygydd AGIC. Diweddarwyd y datganiad o ddiben mewnol ar fewnrwyd y cwmni hefyd | Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| 2 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi diweddariadau i AGIC mewn perthynas â'r cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 , Adran 17 | Rhoddwyd rhestr o hyfforddiant gorfodol sydd heb ei gwblhau eto i'r Deintydd nad yw wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys terfyn amser hefyd. Bydd rheolwr cymorth clinigol yn cefnogi rheolwr y practis os nad yw'n bodloni'r terfyn amser | Rheolwr y Practis | 31/05/2021 |
| 3 | Rhaid i'r darparwr cofrestredig | Rheoliadau | Cwblhawyd ymweliad gan y darparwr ar 18/05/2021. Dylid | Swyddog Rheoleiddio | 31/05/2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | roi copi o adroddiad yr unigolyn cyfrifol i AGIC. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 , Adran 23 | cwblhau'r adroddiad a'i gyhoeddi i reolwr y practis erbyn 31/05/2021. Ni ellir cwblhau ymweliad cynharach o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Anneliese Phillips

Dyddiad: 24/05/2021